ADRODDIAD CYNNYDD
Y GRANT CYFLAWNI PLANT A THEULUOEDD

# MANYLION Y PROSIECT:

**Enw'r sefydliad arweiniol:** Mudiad Meithrin (MM)

**Manylion cyswllt y sefydliad arweiniol**: Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr, Mudiad Meithrin, Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1PD

**Enwau'r partneriaid:**
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC)
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY Cymru)
Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (Wales PPA)
Mudiad Meithrin
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru)



**Teitl y prosiect: Cwlwm** **C**hildcare in **W**ales **L**earning and **W**orking **M**utually

**Hyd y prosiect:** Pedair blynedd: 1.10.2014 – 31.3.2018

**Swm y grant:** £4,324,396 hyd nes 30.9.17
Swm ychwanegol o £722,205 ar gyfer cyfnod yr estyniad o 1.10.17 i 31.3.18

**Y cyfnod yr adroddir yn ei gylch:** 01.4.2017 – 31.3.2018

**Swm y grant:** £1,444,410 am 12 mis

# • Cefndir

Mae **Cwlwm** yn tynnu ynghyd y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth dwyieithog integredig sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ar draws Cymru yn unol â dull 'system-gyfan' Llywodraeth Cymru.

Mae **Cwlwm** – prosiect a arweinir gan Mudiad Meithrin mewn partneriaeth â Clybiau Plant Cymru, NDNA Cymru, PACEY Cymru a Wales PPA – yn tynnu ynghyd gallu, ar sail cyfoeth o brofiad, i fynd i'r afael â materion yn y sector Gofal Plant a Chwarae. Mae'r materion hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cynaliadwyedd, datblygu'r gweithlu a bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant, yn enwedig yng nghyswllt gofal plant/chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg a darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Trwy gydweithio mae'r prosiect yn llwyddo i ganfod atebion arloesol i gyfleoedd chwarae a gofal plant hyblyg a gofal cofleidiol, er mwyn diwallu anghenion rhieni a theuluoedd ym mhob rhan o Gymru.

Mae **Cwlwm** yn cynnig dull amlasiantaeth integredig a dwyieithog o ddatblygu, cefnogi, cynghori a hyfforddi. Mae'r dull cydlynus a strategol hwn o weithredu yn sicrhau y ceir cysondeb o ran ansawdd ac arbedion effeithlonrwydd o ran darparu cymorth ac arweiniad ac mae'n cyflwyno atebion arloesol i ddiwallu anghenion lleol.

**Mae Cwlwm:**

- yn gweithio ar **lefel Cymru gyfan** i gynnig cymorth (gan gynnwys cymorth busnes), arweiniad a chyngor i leoliadau gofal plant a chwarae, gyda'r nod o gynnal darpariaeth.
- yn archwilio anghenion **datblygu** y **gweithlu** gofal plant a chwarae ac yn gweithio ar y cyd i ddarparu cyfleoedd i ddiwallu anghenion y gweithlu hwnnw o ran hyfforddiant.
- yn **adnabod bylchau** yn y ddarpariaeth gofal plant a chwarae ar draws Cymru ac yn dod i hyd i atebion i'r bylchau hynny, gan gynnwys atebion arloesol yng nghyswllt y ddarpariaeth mewn **ardaloedd gwledig**, **tlodi** a'r **Gymraeg**.
- yn cydweithio i ddod o hyd i'r atebion gorau posibl ar gyfer **gofal plant hyblyg** mewn ardal benodol.
- yn adolygu heriau ac yn dod i hyd i **atebion** i'r heriau hynny drwy gydweithio.
- yn **cynrychioli'r** sector gofal plant ar bwyllgorau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â gofal plant a chwarae.
- yn sicrhau **ansawdd cyson ac arbedion effeithlonrwydd** yng nghyswllt cymorth, arweiniad ac atebion i heriau trwy gyfarfodydd partneriaeth rheolaidd.
- yn cydweithio i **chwilio am gyllid** i wella'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i'r sector gofal plant a chwarae.
- yn **cydweithio** ag awdurdodau lleol a gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd i sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru yn elwa o'r ffaith bod modd iddynt gael gofal plant a chyfleoedd chwarae sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac o ansawdd da.

# • Amcanion, Canlyniadau, Cyflawniadau

***Amcan 1: Mae teuluoedd yng Nghymru yn elwa o'r ffaith bod modd iddynt gael gofal plant a chyfleoedd chwarae sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac o ansawdd da***

| Allbwn | Canlyniad | Cyflawniad | Canlyniadau ar gyfer y cyfnod 1.4.17 – 31.3.18 | |
|---|---|---|---|---|
| Darparu cymorth ac arweiniad i ddarparwyr gofal plant/chwarae | Bod modd i rieni/gofalwyr weithio neu gael hyfforddiant; bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a hapus | Mae partneriaid Cwlwm wedi cydweithio i gynnig llawer iawn o gymorth, arweiniad a chyngor – trwy gyfrwng tîm ymroddedig o staff – i dros 2,682 o ddarparwyr gofal plant a chwarae trwy Gymru. Mae'r cymorth a'r arweiniad a ddarparwyd wedi galluogi llawer o ddarparwyr i oresgyn problemau megis cynaliadwyedd, marchnata, recriwtio, gofynion rheoleiddio, ymrwymiadau ariannol a chydymffurfio, materion iechyd a diogelwch ac ati. | Cylchoedd Meithrin (gan gynnwys gofal dydd llawn a gofal dydd sesiynol) | 472 |
| | | | Gofal cofleidiol | 259 |
| | | | Cylchoedd Ti a Fi | 303 |
| | | | Cylchoedd chwarae | 440 |
| | | | Grwpiau rhieni/gofalwyr a phlant bach | 192 |
| | | | Meithrinfeydd dydd (gan gynnwys gofal dydd llawn) | 561 |
| | | | Clwb brecwast | 283 |
| | | | Clybiau ar ôl ysgol | 858 |
| | | | Y tu allan i oriau ysgol | 28 |
| | | | Clybiau gwyliau | 469 |
| | | | Clybiau penwythnos | 10 |
| | | | Gwarchodwyr plant | 2074 |
| | | | Nanis | 131 |
| | | | Nifer y darparwyr uchod sy'n darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg | 461 |
| | | | **Cyfanswm nifer y darparwyr a gafodd gymorth ac arweiniad** | **2682** |
| Darparu rhaglen cymorth busnes i ddarparwyr gofal plant a chwarae | Bod darparwyr gofal plant a chwarae yn dod yn fwy cynaliadwy | Mae partneriaid Cwlwm yn adolygu ac yn trafod y cynllun gweithredu yn ystod cyfarfodydd Cwlwm i sicrhau bod darparwyr gofal plant a chwarae yn parhau i gael cymorth ac arweiniad penodol.<br><br>Yn dilyn cyfarfod Cwlwm â Llywodraeth Cymru ar 14.2.18, bwriedir blaengynllunio gwaith pellach gyda Busnes Cymru yn 2018-19 ar ôl cynnal digwyddiadau Cymorth Busnes.<br><br>Darparwyd cymorth busnes e.e. dros y ffôn/drwy ebost, ymweliadau wyneb yn wyneb a chymorthfeydd, | Mae partneriaid Cwlwm wedi arwain neu gefnogi ystod eang o ddigwyddiadau hyfforddiant/rhwydweithio ym maes cymorth busnes sy'n cynnwys: amryw o weithdai Hunanasesu Gwasanaeth Rhan 2; digwyddiadau llywodraethu; cymorthfeydd; gweithdy cynhwysiant digidol a datblygu adnoddau ar gyfer rheoli heintiau ac alergeddau bwyd; gweithdy 'Ready Steady Go'; sesiynau 'Fit for Offer'; polisi, digwyddiadau gofal plant 30 awr; hyrwyddo hyfforddiant, ansawdd a safonau Lefel 3 a 5 i warchodwyr plant; rheolaeth ac arweinyddiaeth; cyfarfodydd hyfforddi a datblygu; dysgu proffesiynol i ymarferwyr Cymraeg/cyfrwng Cymraeg ac ati. | |

| Allbwn | Canlyniad | Cyflawniad | Canlyniadau ar gyfer y cyfnod 1.4.17 – 31.3.18 |
| --- | --- | --- | --- |
| | | digwyddiadau rhwydweithio, straeon newyddion ar-lein, llythyron newyddion a chyfryngau cymdeithasol. Mae enghreifftiau'n cynnwys materion ynghylch cynaliadwyedd, cyngor o ran cyflogaeth/AD, materion ynghylch Arolygiaeth Gofal Cymru, newidiadau deddfwriaethol, cyfleoedd o ran cyllid/grantiau, Hunanasesu Gwasanaeth Rhan 2, arweinyddiaeth a rheolaeth, hysbysebu, materion ynghylch ansawdd, materion staffio, hyfforddiant Hwb i'r Cyfnod Sylfaen a threialu'r Cynnig Gofal Plant.<br><br>Mae NDNA Cymru a Clybiau Plant Cymru, ar ran Cwlwm, hefyd wedi cwrdd â Llywodraeth Cymru a Busnes Cymru i drafod digwyddiadau Cymorth Busnes a gynhelir ym mis Tachwedd. Diben y digwyddiadau yw mapio'r ystod gyfredol o weithgarwch o ran cymorth busnes a ddarperir gan sefydliadau ac asiantaethau partner, adnabod bylchau yn y gefnogaeth a meysydd posibl lle ceir dyblygu gwaith, ac archwilio dulliau eraill o gydweithio i gynorthwyo darparwyr gofal plant yn y dyfodol.<br><br>Ar ôl mynychu'r Digwyddiad Cenedlaethol i Aelodau yn Wrecsam, cynhaliodd Busnes Cymru weithdy tendro yn Wrecsam i aelodau'r NDNA i rannu gwybodaeth am brosesau tendro i'w helpu â'r broses o gyflwyno tendr i Awdurdod Lleol Wrecsam ar gyfer darpariaeth y Cyfnod Sylfaen.<br><br>Darparwyd cymorth ac ymateb i ystod eang o ymholiadau i ofalwyr plant a nanis cyn-cofrestru a chofrestredig. Darparwyd 67% o'r cymorth i ofalwyr plant a nanis cyn-cofrestru, a darparwyd 33% o'r cymorth i ofalwyr plant cofrestredig. O'r ymholiadau gan bobl gofrestredig, roedd 95% yn ymwneud â materion penodol o ran gofal plant/rheoleiddio a oedd yn golygu bod angen arweiniad a chymorth manwl yn hytrach na chyngor busnes cyffredinol ynghylch cynllunio ariannol a marchnata. O'r ymholiadau gan bobl cyn-cofrestru, roedd 99.5% yn | Bu partneriaid Cwlwm yn paratoi taflen o'r enw 'Nwy Radon: gwybodaeth i leoliadau gofal plant', a gyhoeddwyd ar wefan Cwlwm.<br><br>Cyrhaeddwyd 210% o'r targed ar gyfer cysylltiadau neu ymweliadau cymorth busnes.<br><br>Cyrhaeddwyd 189% o'r targed ar gyfer sesiynau mentora cymorth busnes.<br><br>Cyrhaeddwyd 456% o'r targed ar gyfer mynychu digwyddiadau hyfforddiant neu rwydweithio ym maes cymorth busnes. |

| Allbwn | Canlyniad | Cyflawniad | Canlyniadau ar gyfer y cyfnod 1.4.17 – 31.3.18 |
|---|---|---|---|
| | | ymwneud ag arweiniad a chymorth penodol ym maes gofal plant/rheoleiddio.<br><br>Darparwyd cymorth ynghylch y canlynol hefyd: materion cyflogaeth, marchnata, arweinyddiaeth a rheolaeth, cyllid, staffio/cyfweliadau/sefydlu staff, addysg/Estyn, cynaliadwyedd, Arolygiaeth Gofal Cymru, data P1, safonau ansawdd, tendrau, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y Gymraeg ac iechyd a diogelwch.<br><br>Roedd y math o gymorth a ddarparwyd yn cynnwys sgiliau pwyllgora amrywiol gan ddefnyddio rhaglen Ready, Steady Go, asesiadau iechyd busnes gan ddefnyddio rhaglen Ready, Steady Go, cymorth â cheisiadau am gyllid, recriwtio, adnoddau Cymraeg a bodloni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru, cymorth i fonitro grantiau, trafod prosiect EDI, hyfforddiant, anghenion o ran cymwysterau, sefydlu staff, cyllid, staffio, cyfweliadau, rheolaeth ac arweinyddiaeth, cynaliadwyedd, Sefydliadau Corfforedig Elusennol, safonau ansawdd ac Estyn. | |
| Chwilio am gyfleoedd i wneud ceisiadau ar y cyd am gyllid | Bod darparwyr gofal plant a chwarae, a phlant a theuluoedd, yn elwa o gymorth gwell gan Cwlwm | Mae partneriaid Cwlwm wedi ymrwymo i chwilio am gyfleoedd i wneud ceisiadau ar y cyd am gyllid, lle bo hynny'n bosibl, ac i barhau i ddenu cyllid ychwanegol pan fo hynny'n bosibl er mwyn rhoi cymorth pellach i'r sector gofal plant a chwarae. Mae partneriaid Cwlwm yn mynd ati'n gyson i rannu gwybodaeth am gyfleoedd posibl i gael cyllid yn ystod cyfarfodydd rheolaidd. | Dyma restr o'r ceisiadau ar y cyd am gyllid sydd wedi'u trafod neu'u cyflwyno yn ystod cyfarfodydd Cwlwm:<br>1. Cyflwynwyd cais i gynllun grant y trydydd sector y Loteri Fawr, sy'n cynnwys Clybiau Plant Cymru, Mudiad Meithrin a Wales PPA. Bwriad y grant yw cyflogi Swyddog Cymorth Sefydliad Corfforedig Elusennol ar gyfer pob un o'r sefydliadau, i gynorthwyo'r aelodau drwy'r broses. Yn anffodus, bu'r cais hwn yn aflwyddiannus.<br>2. Mae partneriaid Cwlwm wedi cydweithio'n agos â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac wedi cael £42,500 o gyllid i gydlynu prosiect adnodd diagnostig er mwyn gosod gwaelodlin ar gyfer sgiliau Cymraeg ar draws y sector.<br>3. Cynhaliodd partneriaid Cwlwm drafodaethau ag Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo ynghylch y posibilrwydd o gydweithio a chyflwyno cais ar y cyd ar gyfer hyfforddiant Cwlwm.<br>4. Parhad gwasanaethau Cymraeg yn Nhorfaen.<br>5. Mae partneriaid Cwlwm wedi bod mewn trafodaethau â Chanolfan Peniarth (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) i gyflwyno tendr ar y |

| Allbwn | Canlyniad | Cyflawniad | Canlyniadau ar gyfer y cyfnod 1.4.17 – 31.3.18 |
|---|---|---|---|
| | | | cyd i greu rhaglen dysgu Cymraeg sy'n ymateb yn benodol i anghenion o ran hyfforddiant ymarferwyr chwarae a'r blynyddoedd cynnar.<br>6. City and Guilds/CBAC – potensial i gynorthwyo i ddatblygu unedau newydd yn dilyn newyddion ynghylch y tendr cymwysterau.<br><br>Erbyn hyn mae pob partner wedi cwblhau'r gwaith o gynnig cymorth i ddarparwyr yng nghyswllt y Gymraeg. |
| Cydweithio i sefydlu gwasanaethau gofal plant a chwarae newydd | Bod pob plentyn a theulu yn elwa o wasanaethau mwy integredig, lleihau anghydraddoldeb a helpu i ddileu tlodi | Mae Cwlwm wedi ymrwymo i sefydlu gwasanaethau newydd bob blwyddyn. Gan ddefnyddio arbenigedd pob partner, mae Cwlwm wedi cydweithio i sefydlu gwasanaethau gofal plant a chwarae integredig newydd. | Sefydlwyd 188 o wasanaethau gofal plant a chwarae newydd. Roedd y rheiny wedi darparu 1613 o leoedd gofal plant ychwanegol. Mae Cwlwm yn ymrwymo o hyd i gefnogi lleoliadau newydd. |
| Cynorthwyo darparwyr gofal plant a chwarae i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, gwella eu hansawdd a sicrhau ansawdd eu gwasanaeth | Bod plant a theuluoedd yn elwa o gael gwasanaeth sydd o'r safon uchaf posibl | Mae partneriaid Cwlwm yn darparu cymorth parhaus i ddarparwyr ynghylch cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, ac maent wedi ymrwymo i hwyluso digwyddiadau hyfforddi/cyfarfodydd yn ymwneud â materion cofrestru.<br><br>Mae partneriaid Cwlwm wedi datblygu rhaglen sicrhau ansawdd sy'n cynnwys gwybodaeth am 5 cynllun sicrhau ansawdd sydd ar gael i bob math o ddarparwyr gofal plant a chwarae. Mae partneriaid Cwlwm yn rhoi pwys mawr ar wella ansawdd, gan sicrhau cysondeb yn safon ac ansawdd gofal plant yng Nghymru. Mae'r holl gynlluniau'n cyd-fynd â fframwaith arfaethedig Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen ar gael ar wefan Cwlwm. | Rhoddwyd cymorth i 138 o leoliadau sy'n bodoli eisoes gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.<br>Llwyddodd 31 o leoliadau sy'n bodoli eisoes i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.<br>Rhoddwyd cymorth i 359 o leoliadau newydd gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, sef 259 yn fwy na'r targed.<br>Llwyddodd 178 o leoliadau newydd i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.<br>Llwyddodd 68 o ddarparwyr i sicrhau ansawdd eu gwasanaeth. Mae 19 o ddarparwyr yn gweithio tuag at gyflawni cynlluniau sicrhau ansawdd. |
| Cydweithio er mwyn gwella gofal plant a chyfleoedd chwarae i blant ag anghenion ychwanegol | Bod anghenion pob plentyn a'u teuluoedd, gan gynnwys plant anabl, yn cael eu diwallu | Mae partneriaid Cwlwm yn rheoli cynlluniau cyfeirio lleol er mwyn galluogi plant i gael mynediad i gymorth ychwanegol trwy leoedd a gynorthwyir a chymorth un i un. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yng nghyllid awdurdodau lleol yn cael effaith andwyol ar allu partneriaid Cwlwm i gydweithio er mwyn gwella gofal plant a chyfleoedd chwarae i blant ag anghenion ychwanegol yn benodol. Mae cynlluniau cyfeirio lleol yn lleihau, ac mae hynny'n cael effaith ar y cymorth y gall Cwlwm ei ddarparu i deuluoedd â phlant anabl. | Ar ôl colli cyllid gan nifer o awdurdodau lleol, gwelwyd gostyngiad yn nifer y cynlluniau a reolir yn lleol, felly oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth nid oedd modd cyrraedd y targed hwn.<br>Mae'r cynlluniau cyfeirio canlynol yn cael eu rheoli'n lleol ar hyn o bryd: Conwy, Merthyr Tudful, Ceredigion, Sir y Fflint (2), Gwynedd, Casnewydd (2). Llwyddwyd i gyrraedd y targedau lle'r oedd lefel y cyllid wedi aros yr un fath. |

***Amcan 2: Mae'r gweithlu Gofal Plant a Chwarae yn ennill y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwysterau priodol er mwyn cynnig gwasanaethau o'r radd flaenaf i bob teulu***

| Allbwn | Canlyniad | Cyflawniad | Canlyniadau ar gyfer y cyfnod 1.4.17 – 31.3.18 |
|---|---|---|---|
| Cynnal gweithlu sydd â chymwysterau priodol, a datblygu ei sgiliau | Bod plant a theuluoedd yn elwa o wasanaethau a ddarperir gan weithlu hynod fedrus a chryf ei gymhelliant | Mae Cwlwm wedi parhau i weithio i sicrhau bod ganddo weithlu sydd â chymwysterau priodol, a gwelir hynny yn lefel uchel y cyflawniadau yn erbyn y targedau. | Roedd 303 o ymarferwyr wedi ennill cymwysterau gofal plant neu waith chwarae ar lefel 2 neu'n uwch. Mae hynny'n fwy na dwbl y targed.<br>Mae 197 o ofalwyr plant neu nanis posibl wedi ennill achrediad CYPOP5. Mae hynny bron yn 4 gwaith y targed.<br>Mae hynny wedi'i alluogi trwy ffynonellau cyllid eraill. |
| Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allweddol i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal plant | Bod rhieni yn cael cymorth i ddychwelyd i'r gwaith ac yn cael cymorth i ddod allan o dlodi | Mae Cwlwm yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allweddol yn barhaus i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa.<br><br>Cynhaliwyd amrywiaeth o sesiynau gwybodaeth i ddarpar weithwyr er mwyn hyrwyddo gofal plant fel gyrfa. Roedd y sesiynau'n cynnwys y canlynol: sesiynau briffio wyneb yn wyneb, sesiynau briffio dros y ffôn, sesiynau dewisiadau gofal plant a gweminarau briffio i ofalwyr plant cyn-cofrestru. Mae Mudiad Meithrin wedi bod mewn trafodaethau â'r ysgolion canlynol yng Nghaerdydd: Ysgol Gyfun Glantaf, Ysgol Plasmawr ac Ysgol Bro Edern, ac mae'r 3 ysgol wedi cytuno i gynnig amrywiaeth o gyrsiau gofal plant i'w myfyrwyr. Mynychodd Mudiad Meithrin Ddiwrnod Agored yng Ngholeg Crosskeys lle hyrwyddwyd gyrfaoedd ym maes gofal plant. Yn ystod y digwyddiad hwn cynhaliodd Mudiad Meithrin weithdy ar y Cyfnod Sylfaen – 'Y Dosbarth Tu Allan'. Yn ystod taith Gŵyl Feithrin Dewin a Doti, mae cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa mewn gofal plant wedi'u hyrwyddo'n eang.<br><br>Mae stondinau hyrwyddo hefyd wedi'u gosod mewn digwyddiadau amrywiol, megis ffair swyddi Gwasanaeth | Mae 69 o sesiynau gwybodaeth wedi'u cynnal ar gyfer gweithwyr posibl, o gymharu â tharged o 27.<br><br>Mae 47 o sesiynau ymwybyddiaeth i hyrwyddo gofal plant a chyfleoedd chwarae o safon wedi'u cynnal gyda staff o asiantaethau allweddol, o gymharu â tharged o 7. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint yng Nghei Connah, a gyda grŵp rhieni a phlant bach ym Mhowys.<br><br>Mae holl bartneriaid Cwlwm yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd o ran gofal plant a gwaith chwarae trwy gyfryngau cymdeithasol a llythyrau newyddion amrywiol.<br><br>Mae sesiynau ymwybyddiaeth, i hyrwyddo gofal plant a chyfleoedd chwarae o safon, wedi'u cynnal yn rhan o'r canlynol: sesiwn ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol a ddarparwyd i dimau gofal plant awdurdodau lleol, cyfarfod a gynhaliwyd â thîm y blynyddoedd cynnar yng Nghonwy, cyfarfod a gynhaliwyd ag awdurdod lleol Torfaen a digwyddiad a gynhaliwyd yng ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr. | |
| Cydweithio'n agos â'r Cynghorau Sgiliau Sector megis Gofal Cymdeithasol Cymru a SkillsActive | Bod safonau, cymwysterau a dysgu yn sail i arferion proffesiynol | Mae holl bartneriaid Cwlwm yn mynychu rhwydwaith y gweithlu gofal plant a chwarae, a gynhelir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, ac maent wedi parhau i gyfrannu at ddatblygu modiwlau'r cymwysterau newydd. Mae partneriaid Cwlwm wedi cynrychioli'r sector ym mhob cyfarfod, gan sicrhau bod anghenion y sector gofal plant a chwarae yn cael eu diwallu.<br><br>Caiff partneriaid Cwlwm eu cynrychioli ar grwpiau eraill hefyd, gan gynnwys Grŵp Cynghori ynghylch Cymwysterau a Safonau Gofal Cymdeithasol Cymru ac amryw is-grwpiau (gweler gwybodaeth bellach dan amcan 6 isod). | Bu Clybiau Plant Cymru yn mynychu cyfarfodydd chwarterol y Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae.<br>Mae rhwydwaith y gweithlu gofal plant yn cwrdd yn chwarterol.<br>Cynhaliwyd 7 o gyfarfodydd y Grŵp Cynghori ynghylch Cymwysterau a Safonau yn ystod 2017-18 a bu i gynrychiolwyr partneriaeth Cwlwm eu mynychu. |
| Datblygu a darparu rhaglen gydlynus o hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus | Bod y gweithlu gofal plant a chwarae yn gallu cael mynediad i ystod hyblyg a llawn o gyfleoedd o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus | Mae amrywiaeth eang o ddigwyddiadau hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi'i gynnig i ddarparwyr, gan gynnwys digwyddiadau megis Ymwybyddiaeth Sylfaenol ynghylch Diogelu i Gymru Gyfan, Cymorth Cyntaf, Gweithdai Culture Zone, Gweithdai Adeiladu Cuddfan, Llond Gwlad o Gemau, Gweithdai gweithgareddau dŵr, Parth Natur, Dyletswydd Atal, Gweithdai Pwlïau ac ati, Gweithdy Hunanasesu Gwasanaeth rhan 2, hyfforddiant safoni, gweithdy adrodd stori, y cynnig gofal plant 30 awr, Safonau Serennog - yr allwedd i lwyddiant, Hwyl yn yr Haul (cwrs sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen), gweminar Ymwybyddiaeth o'r Cyfnod Sylfaen, gweithdy Chwarae i Ddysgu, gweithdai Cynllunio | Darparwyd 233 o ddigwyddiadau hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus.<br><br>Mynychodd 2394 o ymarferwyr sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus.<br><br>Cyflawnodd 1111 o ymarferwyr hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar-lein.<br><br>Er na chafodd yr holl sesiynau hyn eu darparu trwy gyllid Cwlwm, mae'n enghraifft o'r gwerth ychwanegol y gall partneriaeth Cwlwm ei ddarparu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ar gyfer Dysgu, Ymlyniad a Dysgu Allweddol, Arweinyddiaeth a Rheoli. | |
| Datblygu a darparu cyrsiau hyfforddi a gweithdai Cymraeg i'r gweithlu gofal plant a chwarae | Bod plant yn elwa o gael mwy o gyfleoedd yn y Gymraeg yn eu lleoliad gofal plant | Mae amrywiaeth o weithdai'n ymwneud â gweithgareddau Cymraeg i blant wedi'u datblygu a'u darparu, sy'n cynnwys y canlynol: Amser stori a chân Ben a Betsan, stori helfa wyau, stori a chân Y Lindysyn Llwglyd, stori a chân Malwoden Araf (sy'n cynnwys sesiynau cardiau fflach a symud), Gweithdai Hwyl gyda'r Gymraeg, gweithgareddau Hwyl yn yr Haul (sy'n cynnwys enghreifftiau o weithgareddau hwyliog y gall staff eu cyflwyno i blant) – mae'r gweithgareddau hyn yn hybu sgiliau iaith plant wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. | Cafodd 127 o weithdai'n ymwneud â gweithgareddau Cymraeg eu darparu i blant. Y targed oedd 13.<br>Er na chafodd yr holl weithdai hyn eu darparu trwy gyllid Cwlwm, mae'n enghraifft o'r gwerth ychwanegol y gall partneriaeth Cwlwm ei ddarparu. |

***Amcan 3: Datblygu atebion arloesol ac ymarferol i wella gofal plant a chyfleoedd chwarae yng Nghymru***

| Allbwn | Canlyniad | Cyflawniad | Canlyniadau ar gyfer y cyfnod 1.4.17 – 31.3.18 |
|---|---|---|---|
| Cydweithio er mwyn sefydlu modelau arloesol o ddarparu gofal plant a chyfleoedd chwarae | Bod teuluoedd yng Nghymru yn elwa o allu cael mynediad i fodelau arloesol ac ymarferol sy'n ymateb i anghenion o ran gofal plant/chwarae | Mae partneriaid Cwlwm wedi cefnogi darparwyr i ymestyn eu darpariaeth i gynnig gofal cofleidiol, gofal ar ôl ysgol, yn ystod y gwyliau ac y tu allan i oriau arferol, e.e. ar ddydd Sadwrn, pan fo angen darpariaeth o'r fath.<br><br>Mae darparwyr wedi ehangu eu gwasanaethau i gynnwys gwasanaethau megis gofal cofleidiol, clybiau cinio, clybiau brecwast, oriau agor estynedig, gwarchodwyr plant a chlybiau ar ôl ysgol neu glybiau gwyliau. Mae hynny'n cynnwys ardaloedd difreintiedig. | Cefnogwyd cyfanswm o 37 o ddarparwyr i ehangu eu gwasanaethau i gynnwys gofal cofleidiol.<br><br>Cefnogwyd cyfanswm o 13 o ddarparwyr i ehangu eu darpariaeth mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Cefnogwyd 21 o ddarparwyr i ehangu eu darpariaeth mewn ardaloedd difreintiedig.<br><br>Sefydlwyd 22 darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd.<br><br>Rhagorwyd ar bob targed. |

***Amcan 4: Sicrhau bod y sector Gofal Plant a Chwarae yn cyfrannu at waith cynllunio strategol ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru***

| Allbwn | Canlyniad | Cyflawniad | Canlyniadau ar gyfer y cyfnod 1.4.17 – 31.3.18 |
|---|---|---|---|
| Cynrychioli'r sector gofal plant a chwarae ar lefel Llywodraeth Cymru ac ar lefel leol | Bod gan y sector gofal plant a chwarae lais ym mhob mater perthnasol | Mae partneriaid Cwlwm wedi darparu adborth manwl ar gyfer adroddiadau Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant awdurdodau lleol, sydd wedi'u cyhoeddi er mwyn ymgynghori yn eu cylch: Wrecsam (x2), Castell-nedd Port Talbot, Gwynedd, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Pen-y-bont ar Ogwr, Ynys Môn, Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Casnewydd, Sir Fynwy.<br><br>Dyma enghreifftiau o'r adroddiadau a baratowyd gan bartneriaid Cwlwm:<br>- Casglu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ynghylch y niferoedd sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant.<br>- Paratoi papur ynghylch effaith ardrethi busnes ar feithrinfeydd dydd yng Nghymru, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.<br>- Darparu adborth manwl i awdurdodau lleol Gwynedd a Môn ynghylch y Cynnig Gofal Plant, ac i awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot ynghylch Cynllun Gweithredu yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Darparu gwybodaeth gan y sector i awdurdod lleol Ceredigion ar faterion yn ymwneud â gwastraff masnachol i ofalwyr plant, ac i awdurdod lleol Sir Gâr ar Gynlluniau Sgôr Hylendid Bwyd i ofalwyr plant.<br>- Anfon holiadur bodlonrwydd blynyddol at bob aelod.<br>- Cynnal ymarfer mapio i fesur gallu lleoliadau i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant, Cynlluniau Hylendid Bwyd i Gylchoedd Meithrin, ac adborth manwl ynghylch cynlluniau gweithredu'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.<br>- Adroddiad ynghylch y lleihad yn nifer y gofalwyr plant sydd ar gael. | Lluniwyd 43 o adroddiadau data ynghylch gwybodaeth am y sector, o gymharu â'r targed o 6. |
| Cyfrannu at ymgynghoriadau ynghylch y sector | Bod darparwyr gofal plant a theuluoedd, yn enwedig y sawl sy'n | Mae partneriaid Cwlwm wedi cyfrannu ymatebion ar y cyd i'r ymgynghoriadau canlynol:<br>- Y Cynnig Gofal Plant 30 awr | Mae partneriaid Cwlwm wedi cyfrannu cyfanswm o 5 ymateb ar y cyd i ymgynghoriadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gofal plant a chwarae ar lefel leol ac ar lefel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU | byw mewn tlodi, yn elwa o strategaeth gofal plant a chwarae gadarn ac arloesol | - Y rhaglen Bwyd a Hwyl (SHEP)<br>- Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Sir Ddinbych<br>- Diploma cymhwyster L2 ym maes Dysgu a Datblygiad Plant.<br><br>Mae'r ymatebion unigol a luniwyd gan bartneriaid Cwlwm yn cynnwys cyfraniadau i'r ymgynghoriadau canlynol:<br>- Arweiniad ynghylch ymdrin ag achosion unigol i warchod plant ac oedolion sydd mewn perygl.<br>- Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad<br>- Ymateb i Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch hylendid bwyd<br>- Adolygiad o S4C – Yr Adran Materion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon<br>- Digwyddiadau ymgynghori ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac ymateb Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector i Gam 2 y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>- Adborth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghylch cynigion i newid Arolygiaeth Gofal Cymru<br>- Rhyddhad Ardrethi Busnes<br>- Papur gwyn y Gymraeg<br>- Cynnig i ddileu amddiffyniad cosb resymol | Mae partneriaid Cwlwm wedi cyflwyno 30 o ymatebion unigol ac wedi'u rhannu â phartneriaid. |

***Nod 1: Bod yn bartner allweddol i Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod peilot cyntaf y Cynnig Gofal Plant trwy fod yn ffynhonnell wybodaeth, yn gyfaill beirniadol, yn bont i ddarparwyr a lleoliadau yn y sector, ac yn asiant pwysig i awdurdodau lleol a Chymdeithas Cynrychiolwyr Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Cymru Gyfan (AWARE), trwy gyfarfod a thrafod â'r sector a'i gynrychioli.***

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Cynnal 5 o gymorthfeydd gyda chynrychiolwyr yr holl ddarparwyr ar draws y sector gofal plant (cyfanswm o 125 o gyfranogwyr) ar y cyd ag AWARE. | Cafodd y digwyddiadau a drefnwyd eu gohirio.<br>Dyma un o flaenoriaethau Cwlwm ar gyfer 2018-19, ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac AWARE. |
| Cydweithio â Llywodraeth Cymru ac AWARE i ddatblygu cyfres o ddeunyddiau sy'n cynnig arweiniad ynghylch y Cynnig Gofal Plant. | Yn dilyn cyfarfod Llywodraeth Cymru â phartneriaid Cwlwm ar 14/2/18, a gan fod y Cynnig Gofal Plant yn flaenoriaeth ar gyfer 2018-19, bydd partneriaid Cwlwm yn datblygu ac yn hyrwyddo cyfres o ganllawiau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch y Cynnig Gofal Plant. Mae partneriaid Cwlwm wedi ysgrifennu sawl blog ar y Cynnig Gofal Plant ac wedi'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| | Cynhaliwyd cyfarfod rhanddeiliaid a sesiwn benodol ynghylch Bil y Cynnig Gofal Plant ar 14/3/18 a fynychwyd gan bob un o bartneriaid Cwlwm. Yn ogystal, rhoddodd PACEY Cymru dystiolaeth i Lywodraeth Cymru yn rhan o'r Adolygiad Gateway o'r Cynnig Gofal Plant ar 27/2/18. Bu PACEY Cymru yn gofyn am arweiniad ac yn lobïo ynghylch newid y sefyllfa bresennol a fyddai'n galluogi gofalwyr plant cofrestredig i gael mynediad i gyllid y Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant sy'n perthyn iddynt ond nad ydynt yn byw gyda nhw ac mae wedi rhannu gwybodaeth am y mater ar ein gwefan. Cynhaliwyd cyfarfod ar 7/2/18 gydag Owain Lloyd a'i dîm i drafod y mater ar ôl i PACEY Cymru anfon llythyr at y Gweinidog. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd modd i ofalwyr plant fanteisio ar y cynnig os byddant yn gofalu am blant sy'n perthyn iddynt.<br><br>Mae'r gwaith hwn yn parhau. |
| *Cydweithio â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer yr ail don o ardaloedd a fydd yn rhan o'r Cynnig Gofal Plant, ynghyd â'r canlynol:* | Mynychodd partneriaid Cwlwm gyfarfod a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch Bil y Cynnig Gofal Plant a Grŵp Rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant ym mis Mawrth. Cafwyd trafodaethau ynghylch prosesau Bil y Cynnig Gofal Plant, arian y Cynnig Gofal Plant a rhannu'r gwersi a ddysgwyd gan yr awdurdodau lleol cyntaf i weithredu'r cynnig. |
| Creu a rhannu llythyr newyddion llawn gwybodaeth trwy dudalen Facebook a chyfrif Twitter Cwlwm (yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol y sefydliadau eu hunain), ebost (AWARE/Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd), a gwefannau, yn ogystal ag ymwneud yn weithredol ag ymgyrch ehangach Llywodraeth Cymru – #TrafodGofalPlant. | Mae pob blog a ysgrifennwyd wedi'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol ar draws pob sefydliad, gan gynnwys gwybodaeth i'r sector am yr ymgyrch Trafod Gofal Plant, a'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru. |
| Creu a rhannu blog misol ar y Cynnig Gofal Plant trwy dudalen Facebook a chyfrif Twitter Cwlwm<br>(yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol y sefydliadau eu hunain), ebost (AWARE/ Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd), a gwefannau, yn ogystal ag ymwneud yn weithredol ag ymgyrch ehangach Llywodraeth Cymru – Dweud eich Dweud ar Ofal Plant. | Cafodd blogiau Cwlwm ynghylch y Cynnig Gofal Plant eu rhannu drwy gyfryngau cymdeithasol, efwletinau a gwefan Cwlwm. |

***Nod 2: Ceisio datblygu gwell dealltwriaeth o'r dirwedd o ran cymorth busnes fel modd i adnabod bylchau a meysydd lle ceir dyblygu gwaith, archwilio ffyrdd o gydweithio yn y dyfodol a dulliau croesgyfeirio, i sicrhau bod darparwyr gofal plant ar draws Cymru yn gallu cael mynediad i wasanaeth cymorth busnes di-dor sy'n diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu disgwyliadau, a chael budd o'r gwasanaeth hwnnw.***

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Darparu cymorth i Lywodraeth Cymru, ar y cyd â Busnes Cymru ac AWARE, i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r dirwedd o ran cymorth busnes. Bydd y gwaith yn cynnwys digwyddiadau busnes ac adborth parhaus ynghylch adnabod bylchau a dyblygu gwaith ac ystyried gwelliannau y gellid eu gwneud er mwyn darparu gwasanaeth cymorth cydweithredol i'r sector. | Mae'r gwaith hwn yn waith parhaus ac mae'n ffurfio rhan o dargedau Cwlwm ar gyfer 2018-19.<br>Cymerodd partneriaid Cwlwm ran mewn digwyddiadau rhwydweithio gyda Busnes Cymru ac AWARE. Mynychodd Busnes Cymru un o gyfarfodydd Cwlwm. |

***Nod 3: Cyfrannu at Strategaeth #Cymraeg2050, er mwyn gwella sgiliau'r gweithlu ar draws y sector, gwella'r ddarpariaeth Gymraeg a symud staff ar hyd y continwwm iaith (ni waeth beth fo iaith y ddarpariaeth)***

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Argymell hyfforddiant a dulliau cyflwyno priodol yng nghyswllt hyfforddiant Cymraeg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg i ymarferwyr. | Parhaodd partneriaid Cwlwm i hyrwyddo a chefnogi Prosiect EDI. Rhannwyd gwybodaeth am Brosiect EDI gydag aelodau drwy gyfryngau cymdeithasol a llythyrau newyddion a thrwy wahodd tîm y prosiect i gyfarfodydd rhwydweithio a digwyddiadau i aelodau. Mae Prosiect EDI wedi parhau i gysylltu ag ymarferwyr ar draws y sector i'w hannog i gymryd rhan yn yr adnodd diagnostig. Mae'r holl bartneriaid wedi cwrdd â Cefin Campbell i drafod pa gyrsiau Cymraeg a chymorth y mae eu hangen, a bydd y gwaith hwn yn parhau i gam 2 unwaith y bydd y gyfres o gyrsiau hyfforddi ar gael. |
| Mapio'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd drwy bartneriaid Cwlwm ac eraill, a chyfeirio at yr adnoddau hyn/darparu dolenni cyswllt â nhw ar wefan Cwlwm gan gynnwys awdurdodau lleol a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. | Mae Mudiad Meithrin wedi mapio'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd, a chaiff y rhain eu hyrwyddo drwy ddolen gyswllt â Mudiad Meithrin ar wefan Cwlwm. Gall aelodau gael mynediad i adnoddau Cymraeg Mudiad Meithrin drwy'r fewnrwyd. Mae ffeithlenni Cymraeg yr NDNA ar gael yn rhad ac am ddim drwy wefan y Gymdeithas, ac mae dolen gyswllt â'r wefan honno ar wefan Cwlwm. |
| Cyhoeddi blog ar wefan Cwlwm, sy'n cyflwyno arferion da wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn 4 darpariaeth lle Saesneg yw'r prif gyfrwng, gan gynnwys dolenni cyswllt â phartneriaid Cwlwm, | Cyhoeddwyd blog Cwlwm ym mis Mawrth a chafodd ei rannu gydag aelodau trwy gyfrwng efwletin. Tynnodd partneriaid Cwlwm sylw at hyn drwy eu cyfrifon amrywiol ar gyfryngau cymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| awdurdodau lleol a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. | |
| Ystyried sut y gall holl aelodau Cwlwm gyfrannu at gyflawni amcanion Cymraeg 2050 i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar a sicrhau bod plant ar draws y sector yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach. | Bu i holl bartneriaid Cwlwm baratoi ymateb byr ynghylch sut y gallant gyfrannu at nodau Cymraeg 2050. |

***Nod 4: Ceisio a sicrhau ffynonellau cyllid eraill sy'n ychwanegu gwerth at waith partneriaeth Cwlwm, yn ei gryfhau ac yn ei ehangu***

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Cefnogi'r gwaith 'Cymraeg Cynnar' y mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ei wneud i ddatblygu darlun dibynadwy o sgiliau Cymraeg y sector a gallu'r sector i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â'r papur trafod, a llunio argymhellion ynghylch sut y gellid defnyddio'r canfyddiadau hyn. | Mae gwaith Prosiect EDI wedi helpu i lunio'r gwaith 'Cymraeg Cynnar'. Yn dilyn hyn, cynigwyd yr argymhellion canlynol:<br>1: Dylid ystyried yr ystod eang o sgiliau Cymraeg a geir eisoes ymhlith y gweithlu gofal, blynyddoedd cynnar a chwarae, i ddatblygu ystod o gyrsiau wedi'u teilwra er mwyn symud unigolion ar hyd y continwwm iaith.<br>2: Datblygu cofrestr o gymwysterau sydd wedi'u mapio i gyd-fynd â lefelau Cymraeg i Oedolion cymdeithas ALTE, er mwyn galluogi unigolion i adnabod lefel eu cymhwyster presennol.<br>3: Sicrhau bod cyrsiau Cymraeg Gwaith a gaiff eu datblygu ar gyfer y sector gofal, blynyddoedd cynnar a chwarae yn cynnwys elfennau i ddatblygu a chynyddu hyder unigolion i ddefnyddio eu Cymraeg.<br>4: Yn ogystal â datblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer gweithgareddau a sefyllfaoedd lle defnyddir patrymau ac ymadroddion rheolaidd, dylid ystyried yr angen i ddatblygu'r iaith sy'n cyd-fynd â gweithgareddau penagored sy'n rhan o waith y sector yn rheolaidd.<br>5: Datblygu hyder y gweithlu i ganu yn Gymraeg, trwy gyflwyno ystod eang o ganeuon y gellid eu defnyddio'n rheolaidd yn y gwaith yn rhan o'r cyrsiau Cymraeg Gwaith ar gyfer y sector.<br>6: Cynnwys elfennau sy'n datblygu hyder unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gydag oedolion, yn rhan o'r cyrsiau Cymraeg Gwaith ar gyfer y sector.<br>7: Cyflwyno'r cyrsiau Cymraeg Gwaith i'r sector mewn lleoliadau sy'n adlewyrchu natur lleoliadau gwaith y sector.<br>8: Cydweithio â'r sefydliadau ymbarél ac eraill i hybu ac annog y gweithlu i ymgymryd â chyrsiau Cymraeg Gwaith. |
| Ehangu'r defnydd o becyn digidol Cymunedau Digidol Cymru, a chyflwyno astudiaeth achos ar y defnydd o'r pecyn hwnnw i sicrhau benthyciad pellach. | Mae gan holl aelodau Cwlwm fynediad i becyn digidol Cymunedau Digidol Cymru. Mae'r holl bartneriaid yn defnyddio'r pecyn ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau pan fo angen. Rydym yn parhau i ddefnyddio'r pecyn, ac mae'n enghraifft o'r gwerth ychwanegol y gall Cwlwm ei gynnig. Mae gwaith gyda'r pecyn hefyd yn gysylltiedig â ffynonellau cyllid eraill.<br>Mae PACEY Cymru wedi llunio dwy astudiaeth achos, ac mae NDNA Cymru wedi llunio un astudiaeth achos. |

**_Nod 5: Sicrhau y rhoddir mewnbwn arbenigol i feysydd y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, wrth i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg fynd drwy brosesau democrataidd Llywodraeth Cymru._**

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Cydlynu a chynrychioli'r sector mewn fforymau cenedlaethol, rhanbarthol a sirol perthnasol, er mwyn datblygu arferion sy'n gysylltiedig â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. | Mynychodd Charlie Thomas, Pennaeth Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol, a Tim Snell, Rheolwr Rhaglen Ddeddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cymru, gyfarfod Cwlwm gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r broses y bwriedir ei defnyddio yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn flaenoriaeth i bartneriaid Cwlwm yn 2018-19, a bydd Cwlwm yn parhau i weithio gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. |
| Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor a mewnbwn i'r broses o ddatblygu deunyddiau ac adnoddau i godi ymwybyddiaeth ynghylch y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'i oblygiadau ar gyfer y sector nas cynhelir. | Cafodd gwybodaeth am y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ei rhannu ag aelodau trwy gyfrwng efwletin. Mynychodd Charlie Thomas, Pennaeth Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol, gyfarfod Cwlwm ar 23.1.18 i drafod sut i geisio cyrraedd pob targed mewn perthynas â'r nod hwn.<br><br>Mae partneriaid Cwlwm wedi mapio'r cymorth sy'n bodoli eisoes yng nghyswllt Anghenion Dysgu Ychwanegol ar draws Cymru a'r adnoddau sydd ar gael. Byddwn yn cydweithio'n agos â Charlie Thomas i godi ymwybyddiaeth o'r Bil a'i oblygiadau dros y misoedd nesaf.<br>Bydd cynrychiolydd o Wales PPA a Mudiad Meithrin yn mynychu'r cyfarfodydd ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol ar ran Cwlwm. |
| Gwneud gwaith mapio ynghylch y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar draws y sector, i gynnwys dadansoddiad o broblemau, y rhwystrau sy'n wynebu darparwyr gofal plant a dadansoddiad o'r adnoddau cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd. | Mae partneriaid Cwlwm wedi anfon at Lywodraeth Cymru ymarfer mapio Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n amlinellu'r cymorth a'r cynlluniau cyfeirio sy'n bodoli ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar ar draws Cymru. Caiff y ddogfen hon ei hadolygu'n flynyddol. |

**_Nod 6: Cefnogi'r broses o ddatblygu gwaith sy'n gysylltiedig â gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yng Nghymru_**

| Allbwn | Cyflawniad |
|---|---|
| Cynrychioli'r sector er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu a chyflwyno cyfres o gymwysterau newydd ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. | Mae partneriaid Cwlwm wedi ymwneud cryn dipyn â'r gyfres newydd o gymwysterau. Cafwyd adborth parhaus ynghylch y cynnwys a ddatblygwyd, awgrymiadau ar gyfer gwella cymwysterau Gofal Plant, Dysgu, Datblygiad a Chwarae ar L2, L3, L4 a L5 ynghyd â sylwadau ynghylch cynnwys unedau craidd ac unedau dewisol. Cyflwynwyd yr adborth, yr awgrymiadau a'r sylwadau hynny trwy weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru trwy gyfarfodydd y Grŵp Cynghori ynghylch Cymwysterau a Safonau a thrwy anfon negeseuon ebost at Rwydwaith y Blynyddoedd Cynnar. |

| | |
|---|---|
| | Roedd PACEY Cymru wedi cynrychioli gwarchodwyr plant mewn cyfarfod â Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru, a oedd yn ystyried llwybrau tuag at y cymwysterau newydd i warchodwyr plant, ac mae'r gwaith hwn yn parhau. Mae gwaith wedi'i wneud gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu llyfrau gwaith ar gyfer Fframwaith Sefydlu newydd ar gyfer staff gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, a fydd â chysylltiad agos â'r cymwysterau newydd. Mae arbenigedd partneriaid Cwlwm wedi bod yn amhrisiadwy yn y maes hwn ac mae staff Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyfeirio at hynny. Yn ogystal, mae cryfder partneriaid Cwlwm yn cael ei ddefnyddio i rannu ein barn am yr angen i gynnwys 'chwarae' yn y cymwysterau newydd, ac mae gwaith yn parhau yn y maes hwn wrth i lythyr ymateb ar y cyd gael ei lunio. |
| Datblygu adran hyfforddi ar wefan Cwlwm sy'n cynnwys gwybodaeth am y newidiadau i gymwysterau | Mae'r cymwysterau'n dal i gael eu hadolygu. |
| Datblygu adran hyfforddi ar wefan Cwlwm, sy'n cynnwys dolenni cyswllt â gwybodaeth am y newidiadau i'r cymwysterau ac â gwefannau partneriaid Cwlwm, awdurdodau lleol a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. | Mae'r cymwysterau'n dal i gael eu hadolygu.<br>Ceir dolen gyswllt â chynlluniwr hyfforddiant NDNA Cymru ar wefan Cwlwm. |
| Hyrwyddo'r Rhaglen Prentisiaethau ymysg y sector gofal plant, a chymell pobl i ymgymryd â phrentisiaethau. | Mae ymarferwyr wedi dilyn cymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Gofal Plant, Dysgu, Datblygiad a Chwarae, a chymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Chwarae.<br>Caiff y Rhaglen Brentisiaethau ei hyrwyddo'n ddyddiol gan y Prif Swyddogion Datblygu Busnes a'r Swyddogion Hyfforddiant sy'n gweithio gyda'r lleoliadau.<br><br>Bu partneriaid Cwlwm yn hysbysebu'r Rhaglen Brentisiaethau drwy anfon negeseuon ebost at eu haelodau, drwy eu cyfryngau cymdeithasol a thrwy eu gwefannau.<br><br>Mae partneriaeth barhaus gydag Educ8 yn cefnogi mynediad i gymwysterau drwy'r rhaglen brentisiaethau – i bobl ifanc 24-28 oed a'r sawl sydd dros 50 oed. |

***Nod 7: Cyfrannu at ffrydiau gwaith Arolygiaeth Gofal Cymru i sicrhau bod arbenigedd yn cael ei rannu er mwyn galluogi cynrychiolaeth a chyfranogiad***

| **Allbwn** | **Cyflawniad** |
|---|---|
| Darparu'r adborth a gasglwyd a chefnogi'r broses o roi prawf pellach ar wasanaethau ar-lein Arolygiaeth Gofal Cymru, gan gynnwys symud tuag at gofrestru ar-lein ar gyfer lleoliadau gofal plant a chwarae newydd. | Mae Cwlwm yn parhau i gynrychioli'r sector mewn trafodaethau ag Arolygiaeth Gofal Cymru. Trafodwyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru broblemau parhaus yn ymwneud â chofrestru ar-lein a gwasanaethau, y mae angen eglurder a chysondeb yn eu cylch. Mae cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu ar gyfer 2018-19. |

| | |
|---|---|
| Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddatblygu dogfen Cwestiynau Cyffredin i gefnogi newidiadau i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn 2018, be bai'r angen yn codi. | Mae'r amserlen wedi newid ar gyfer y gwaith ymgysylltu a gynlluniwyd oherwydd newidiadau mewnol Arolygiaeth Gofal Cymru. Cyfarfu cynrychiolwyr Cwlwm â Kevin Barker, Pennaeth Arolygu Gofal Plant a Chwarae gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, ar 26/3/18 i drafod anghysondebau a gwallau yn y wybodaeth a ddarparwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymwneud â newidiadau i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n effeithio ar warchodwyr plant a darparwyr ar draws Cymru. |

***Nod 8: Cefnogi adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol***

| **Allbwn** | **Cyflawniad** |
|---|---|
| Ymgysylltu â darparwyr gofal plant a chwarae i helpu i gyfrannu at yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. | Mae adolygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn flaenoriaeth i bartneriaid Cwlwm yn 2018-19. Rydym yn disgwyl gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd yr adolygiad yn mynd rhagddo. |

# • Uchafbwyntiau'r prosiect

Roedd chwe mis cyntaf y flwyddyn yn ddiwedd tair blynedd gyntaf y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd, ac roedd y chwe mis dilynol, hyd at 31.3.18, yn estyniad o chwe mis a oedd â chynllun busnes a thargedau newydd. Mae'r adroddiad blynyddol yn seiliedig ar y ddau gyfnod hyn, sy'n egluro'r newid ffocws hanner ffordd drwy'r flwyddyn. Er mwyn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau o ran darpariaeth yn y sector Gofal Plant a Gwaith Chwarae yn y Blynyddoedd Cynnar yn 2017/2018, sicrhaodd partneriaid Cwlwm bod y targedau newydd yn adlewyrchu'r cynlluniau canlynol ac yn canolbwyntio arnynt:

- Y Cynnig Gofal Plant 30 awr
- Cymraeg #2050
- Datblygu a hyfforddi'r gweithlu
- Cymorth busnes

Mae'r strwythur cydweithredol a ddatblygwyd rhwng y partneriaid yn parhau'n gryf, ac mae'r cyfarfodydd misol yn parhau i feithrin y berthynas waith lawn ymddiriedaeth rhwng y partneriaid. Mae holl bartneriaid Cwlwm yn parchu gwybodaeth ac arbenigedd ei gilydd, ac mae hynny wedi'u galluogi i fynd i'r afael â phroblemau yn y sector gofal plant a chwarae mewn modd proffesiynol, effeithlon ac effeithiol. Mae cydweithio wedi arwain at roi mwy o lais i Cwlwm yn y sector gofal plant.

Mynychodd partneriaid Cwlwm gyfarfod AWARE ar 28.9.17 lle cafwyd ymateb cadarnhaol i gyflwyniad Cwlwm ynghylch 'Blaengynllunio'. Roedd y cyflwyniad yn rhoi syniad o gynlluniau Cwlwm ar gyfer y 6 mis nesaf, yn ogystal ag esbonio nodau ac amcanion unigol yr holl sefydliadau ar gyfer yr un cyfnod. Roedd y cyfarfod hefyd yn gyfle i bartneriaid Cwlwm esbonio strwythur ariannu'r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd a'r modd y caiff ei rannu ymysg partneriaid Cwlwm.

Mae partneriaid Cwlwm wedi cydweithio'n agos â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a bu'r gwaith o ddatblygu adnodd ar-lein i ddarparu gwaelodlin ar gyfer sgiliau Cymraeg gweithlu'r blynyddoedd cynnar a chwarae, sef Prosiect EDI, yn llwyddiant. Bu partneriaid Cwlwm yn helpu i ddewis sampl o'u gweithlu er mwyn gallu cynnal yr holiadur rhagarweiniol syml cychwynnol. Mae oedi wrth ddatblygu'r adnodd diagnostig ar-lein wedi golygu nad oedd ail ran y prosiect wedi dechrau tan fis Ebrill 2018, a bydd hynny'n galluogi cyfranwyr i gwblhau cwisiau a fydd yn rhoi prawf ar eu sgiliau darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu. Mae'r gwaith y mae partneriaid Cwlwm wedi'i gyfrannu i'r prosiect hwn wedi golygu bod y data a gasglwyd hyd yn hyn wedi helpu i lunio cyfres newydd o gyrsiau iaith sydd i'w datblygu, a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion penodol y gweithlu o ran cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a'r 'cynnig gweithredol' yn y sector gofal plant a gwaith chwarae a gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050.

Yn ystod y flwyddyn flaenorol mae partneriaid Cwlwm wedi bod yn rhagweithiol, ac mae hynny wedi dod i'r amlwg unwaith yn rhagor wrth i Cwlwm lwyddo i gyrraedd y rhan fwyaf o'i dargedau a rhagori ar rai ohonynt. Mae partneriaid Cwlwm yn dal wedi ymrwymo i'w dull gweithredu i gynorthwyo darparwyr i wireddu eu nod o ddatblygu, gwella ac ehangu'r dewis o ddarpariaeth sydd ar gael, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ar draws Cymru.

Mae cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor a mewnbwn i'r broses o ddatblygu deunyddiau ac adnoddau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, a goblygiadau'r Bil i'r sector nas gynhelir, wedi bod yn bwysig iawn.

## Heriau a phryderon

Mae cyllid ar gyfer cynlluniau atgyfeirio wedi'i dynnu'n ôl gan nifer o awdurdodau lleol; nid yw'r cyfle i dendro am waith wedi bod ar gael wrth i fwyfwy o gynlluniau atgyfeirio gael eu darparu'n fewnol. Mae hyn yn bryder mawr i bartneriaid Cwlwm, gan ei fod yn golygu y gallai plant ag anghenion ychwanegol beidio â chael mynediad i'r un gofal plant a chyfleoedd chwarae ag y maent yn eu haeddu. Codwyd y pryderon hyn â Llywodraeth Cymru, ac ar gais y Llywodraeth mae partneriaid Cwlwm wedi ymgymryd ag ymarfer mapio er mwyn gallu amlygu ymhellach wybodaeth allweddol ynghylch cyllid awdurdodau lleol, a rhannu a thrafod y wybodaeth honno.

Mae partneriaid Cwlwm wedi sylwi bod cynnydd i'w wneud o hyd o ran sicrhau bod awdurdodau lleol yn deall rôl Cwlwm mewn perthynas â dyrannu cyllid a sut y caiff arian Cwlwm ei wario. Mae partneriaid Cwlwm wedi ymrwymo i greu cydberthynas waith agosach gydag awdurdodau lleol, a byddant yn sicrhau eu bod yn cwrdd â chynrychiolwyr AWARE yn rheolaidd hefyd, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i rannu canlyniadau arolygon/cynlluniau gweithredu perthnasol ac yn parhau i symud ymlaen, gan lunio llythyr newyddion chwarterol yn amlinellu gwaith a chyflawniadau Cwlwm hyd yn hyn.

Mae'r ymdrech i ddod o hyd i ffynonellau cyllid ychwanegol yn broses barhaus i bartneriaid Cwlwm, ac mae pob sefydliad yn rhannu gwybodaeth am gyfleoedd cyllido posibl yn rheolaidd. At ei gilydd, mae partneriaid Cwlwm yn pryderu bod lefel y cyllid gan awdurdodau lleol yn lleihau/dod i ben, a bydd hynny'n amlwg yn cael effaith ar y cyllid ychwanegol a geir i gefnogi'r sector gofal plant a chwarae.

## Astudiaethau achos / blogiau

Darparwyd yr astudiaethau achos canlynol gan Cwlwm:

- **Astudiaeth achos NDNA Cymru ar gymunedau digidol Cymru**
- **Astudiaeth achos PACEY Cymru ar gynhwysiant digidol**
- **Astudiaeth achos PACEY Cymru ar ddarparu cymorth o safbwynt llythrennedd digidol**

Mae'r blogiau canlynol wedi'u paratoi gan Cwlwm ac wedi'u rhannu ag aelodau:

- **Barod ym 30 awr o ofal plant? #TrafodGofalPlant**
- **Y Cynnig Gofal Plant i Gymru**
- **Cefnogi Cyfnodau Pontio**
- **Cyllid y Cynnig Gofal Plant**
- **Y diweddaraf am y Cynnig Gofal Plant mewn ardaloedd peilot**

## • Y cyfnod nesaf (1.4.2018 - 31.3.2019)

Yn ystod y tymor nesaf, mae partneriaid Cwlwm yn edrych ymlaen at ddysgu gwersi o'r adolygiad annibynnol gan Arad, ac maent wedi ymrwymo i gydweithio â Busnes Cymru ac AWARE.

Felly, bydd amcanion newydd Cwlwm yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant
- Datblygu a hyfforddi'r gweithlu
- Darparu cymorth busnes
- Cyfrannu at waith sy'n gysylltiedig ag Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cefnogi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- Adolygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Cyfrannu at gyrraedd targedau 'Cymraeg 2050'

Caiff y canlynol eu creu o'r newydd:

- Cylch gorchwyl ar gyfer dull gweithredu Cwlwm
- Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Cwlwm a Chymdeithas Cynrychiolwyr Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Cymru Gyfan (AWARE)
- Strategaeth gyfathrebu